**MEWN PERTHYNAS AG YMCHWILIAD COVID-19**

**MODIWL 8: PLANT A PHOBL IFANC**

---

**DATGANIAD CAU LLYWODRAETH CYMRU**

---

**Cyflwyniad a throsolwg**

1. Dros bedair wythnos, mae'r Ymchwiliad wedi clywed tystiolaeth drawiadol am effaith y pandemig ar blant a phobl ifanc ledled y Deyrnas Unedig. Fel yr oedd yn glir o'r dystiolaeth a ddatgelwyd gerbron yr Ymchwiliad (a'r ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ei hun[1]), cafodd y pandemig effaith niweidiol anghymesur ar rai plant a phobl ifanc: plant difreintiedig; plant ag anghenion addysgol arbennig, plant anabl a phlant a oedd yn agored i niwed. Ar bob lefel yn Llywodraeth Cymru mae dealltwriaeth bod yn rhaid mynd i'r afael â'r effeithiau ar blant a phobl ifanc yn sgil y pandemig, a bod rhaid parhau i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a waethygodd effeithiau'r pandemig.

2. Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad ers tro i osod plant a phobl ifanc wrth wraidd y penderfyniadau a wneir ganddi. Cafodd yr ymrwymiad hwn ei ymgorffori yn nhystiolaeth tyst Mark Drakeford, a oedd yn Brif Weinidog yn ystod y pandemig[2]:

> *"Rwyf wedi llwyr ymrwymo i sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed yng nghlustiau'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau, a'r tro cyntaf y gallaf wneud hynny yw ym mis Ebrill yn syth ar ôl y cyfyngiadau symud, lle y byddaf yn cwrdd ag aelodau'r Senedd Ieuenctid am y tro cyntaf i glywed ganddynt. A daliais i gwrdd â phlant, fel y dywedais, drwy gydol y pandemig, oherwydd roeddwn wir am glywed yn uniongyrchol ganddynt am yr effaith y mae'r pandemig yn ei chael arnynt, a'r cyngor y byddent am ei roi i lywodraeth, y pethau yr oeddent am i ni feddwl amdanynt"*[3].
>
> *Roeddwn yn ddigon ffodus i gwrdd â phlant bob mis yn ystod y pandemig, a lle y byddai plant hŷn yn siarad â chi am eu pryder ynghylch arholiadau ac iechyd meddwl a chyflogaeth, byddai plant iau bob amser yn siarad â chi am*

[1] INQ000399997
[2] Roedd Mark Drakeford yn Brif Weinidog rhwng Rhagfyr 2018 a Mawrth 2024.
[3] Drakeford 22 Hydref 2025 171/3-13

*y ffordd yr oeddent yn gweld eisiau chwarae, yn gweld eisiau chwarae gyda'i ffrindiau ac ati".*[4]

3. Yn ôl Llywodraeth Cymru dylai'r Ymchwiliad ystyried ar ddechrau ei ystyriaethau i ba raddau yr oedd hawliau plant a phobl ifanc yn groes i hawliau pobl eraill ac yn arbennig pobl hŷn neu'r rhai a oedd yn fwy tebygol o gael y feirws, yn enwedig ar adegau pan oedd y cyfraddau heintio ar eu huchaf. Yn ei dystiolaeth, gwnaeth Mark Drakeford y pwynt yn y ffordd ganlynol:

 *"Mae erthygl 6 CCUHP yn dweud bod gan blant hawl i fywyd ac ar yr adeg hon yn y pandemig, dyna beth yr ydym yn poeni yn ei gylch: hawl plant i fywyd eu hunain, ond hefyd i fywyd teuluol. […] rwyf weithiau'n teimlo pan wyf wedi bod yn dilyn y dystiolaeth yr ydych wedi'i chlywed, y gellir dadlau i raddau bod hawliau plant yn wahanol rywsut ac yn gwrthbwyso hawliau pobl eraill. Yn sicr nid dyna'r ffordd yr oedd plant yn gweld pethau ar y pryd.* Rydym hefyd yn gwneud ein gorau glas i barchu Erthygl 8, sef bod gan blant lais uniongyrchol, ac efallai y dylwn fod wedi gwneud y pwynt yn gynharach bod gan bob ysgol yng Nghymru, drwy statud, gyngor ysgol, a bod gan bob awdurdod lleol gyngor ieuenctid, a bod gan y Senedd, y Senedd Ieuenctid, sef Senedd Ieuenctid Cymru, felly ar bob lefel, oherwydd y Mesur Hawliau Plant, mae gennym lais y plentyn yn cyfrannu'n weithgar at benderfyniadau a wneir amdanynt ac ochr yn ochr â nhw. *Ac os oeddech yn siarad â phlant ar y pryd, nid oeddent o'r farn bod eu hawliau'n cael eu gorchfygu rywsut gan hawliau pobl eraill, roeddent yn siarad â chi drwy'r amser am eu pryder ynghylch eu tad-cu a mam-gu, eu pryder ynghylch eu tad a oedd yn gweithio oddi cartref, eu pryder ynghylch eu chwaer a oedd â chyflwr iechyd isorweddol. Wyddoch chi. Nid oeddent yn nodi'r gwahaniaeth hwnnw bod eu hawliau nhw'n cael eu haberthu rywsut er mwyn hawliau pobl eraill, oherwydd bod hawliau pobl eraill o wir bwys iddynt*[5]".

4. Ar yr adeg pan oedd ysgolion ar gau i'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mawrth 2020 a Rhagfyr 2020/Ionawr 2021, roedd y gyfradd heintio'n uchel, ychydig iawn o aelodau'r boblogaeth a oedd wedi'u brechu, a phrin oedd yr opsiynau a oedd ar gael i atal lefel uchel o farwolaethau. Roedd plant a phobl ifanc yn bodoli o fewn rhwydweithiau ehangach o ffrindiau, a byddai cyfradd marwolaethau uwch wedi cael effaith niweidiol arnynt. Fel y gwnaed yn glir yn y modiwl, bu i nifer bach o blant farw, fynd yn ddifrifol

---

[4] Drakeford 22 Hydref 2025 167/12-17
[5] Drakeford 22 Hydref 2025 133/15 - 134/20

wael, neu ddatblygu COVID hir. Yn erbyn y cefndir hwnnw yr oedd penderfyniadau'n cael eu gwneud.

5. Nid yw'r pwyntiau hyn yn tynnu dim oddi ar gydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru bod y pandemig yn drychinebus i lawer o blant a phobl ifanc, ac nad ydynt ychwaith yn tynnu oddi ar ei hymrwymiad i fynd i'r afael â'r problemau parhaus y mae plant a phobl ifanc yn eu profi o ganlyniad i'r pandemig, yn enwedig o ran eu hiechyd meddwl, eu datblygiad, a'u presenoldeb yn yr ysgol. Mae Llywodraeth Cymru wedi myfyrio ar ei phenderfyniadau yn ystod y pandemig ac wedi dysgu gwersi i lywio ei chamau gweithredu yn y dyfodol. Mae datganiadau tyst Kirsty Williams ym Modiwl 2B ac 8 yn cynnwys sawl achos o edifeirwch a chydnabyddiaeth y gellid bod wedi gwneud penderfyniadau gwahanol. Yn y dystiolaeth, mae Mark Drakeford yn yr un modd wedi cydnabod meysydd llunio penderfyniadau y gellid bod wedi eu gwneud yn well. Mae'r cyflwyniadau isod yn ymgysylltu'n gwbl agored â'r dystiolaeth a glywyd yn ystod pedair wythnos Modiwl 8 a'r argymhellion datblygol.

**Strwythur y datganiad cau**

6. Mae'r datganiad cau hwn yn canolbwyntio ar y materion a gododd yn ystod y gwrandawiadau a dylid ei ddarllen ar y cyd â datganiad agoriadol[6] a datganiadau tystion Llywodraeth Cymru[7]. Ymdrinnir â'r meysydd canlynol yn y datganiad cau hwn:

   a. Y fframwaith cyfreithiol ar gyfer hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru a'r modd y gwnaeth hwn wahaniaeth yn ystod y pandemig;

   b. Y paratoadau i gau ysgolion a'r weithred o gau ysgolion i'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar 18 Mawrth 2020: consesiynau a chyd-destun;

   c. Effeithiolrwydd camau lliniaru: dysgu o bell a chadw ysgol yn agored i blant a phobl ifanc gweithwyr allweddol a phlant a phobl ifanc agored i niwed;

   d. Rhyngweithio â'r undebau: haf 2020 ac Ionawr/Chwefror 2021; ac

   e. Argymhellion.

**Gwnaeth y fframwaith cyfreithiol ar gyfer hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru wahaniaeth yn ystod y pandemig**

---

[6] Sylwadau agoriadol Llywodraeth Cymru ar gyfer Modiwl 8

[7] INQ000618154, INQ000620750, INQ000615597, INQ000548739, INQ000587979, INQ000652057, INQ000651962, INQ000651701, INQ000652058, INQ000588203

7. Yn 2004, aeth Llywodraeth Cymru ati i fabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ffurfiol fel y sail ar gyfer llunio polisïau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc. Yn 2012, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn mewn cyfraith ddomestig. Cyflawnwyd hyn drwy *Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011*, a roddodd ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i ystyried hawliau plant yn eu holl weithredoedd a'u holl benderfyniadau. Yn ogystal â Mesur 2011, o 2014 roedd yna Gynllun Hawliau Plant (a ddiweddarwyd yn 2021) a ddarparodd y dylai Llywodraeth Cymru gyflawni Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant fel rhan o asesiad effaith integredig ehangach.

8. Mae deddfwriaethau eraill, er enghraifft *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* yn gosod rhwymedigaeth ar Weinidogion Cymru i feddwl am oblygiadau'r dyfodol i blant a phobl ifanc, ac arnynt, wrth wneud penderfyniadau. Mae deddfwriaethau megis *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* a *Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018* hefyd yn ymwreiddio egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig.

9. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y ffaith bod plant a phobl ifanc wedi bod wrth wraidd prosesau gwneud penderfyniadau ers 2004 (a hynny o safbwynt cyfreithiol ers 2012) yn golygu bod hawliau plant a phobl ifanc wedi cael eu hymwreiddio i bob pwrpas yn ei hymateb i'r pandemig.

10. Yn ystod tystiolaeth Mark Drakeford, dywedodd Cwnsler yr Ymchwiliad fod rhai Cyfranogwyr Craidd o'r farn nad oedd dyletswyddau 'sylw dyladwy' Gweinidogion Cymru wedi cael eu dilyn yn llawn ac yn gywir yn ystod y pandemig, a phe byddai'r prosesau amddiffyn hawliau plant yng Nghymru wedi bod yn gryfach, er enghraifft drwy gorffori'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn yn llawn, gellid bod wedi lliniaru effaith y pandemig yn well. Mewn ymateb dywedodd Mark Drakeford:

    *"Wel, gallaf ddweud fy mod yn meddwl y gallaf gyfeirio at enghreifftiau ymarferol uniongyrchol iawn o gyfnod cynnar iawn, a thrwy gydol y pandemig, lle gwnaeth safbwynt Mesur Hawliau Plant CCUHP wahaniaeth go iawn i'r penderfyniadau a wnaed, p'un a oedd hynny yn y mis Ebrill, yr adolygiad tair-wythnos cyntaf, lle penderfynwyd y gall plant sydd ag anghenion penodol iawn fynd allan i wneud ymarfer corff yn fwy rheolaidd na dim ond am un awr y dydd. Mae hynny'n fater sy'n ymwneud â hawliau plant. Dyna sut y cafodd ei lunio a'i ddadlau yn y Cabinet. Yr holl ffordd drwodd, fel y dywedasoch, er enghraifft, yn y cyfnod atal byr pan benderfynasom, yn anarferol iawn, rwy'n meddwl, wyddoch chi, heb fod yn hollol*

*gyson â'r cyngor meddygol yn fwy na thebyg, ein bod yn mynd i ganiatáu i flynyddoedd 7 ac 8 ddychwelyd i ysgolion uwchradd. Roedd hynny'n fater, i ni, sy'n ymwneud â hawliau plant. Felly, rwy'n credu y gallaf gyfeirio at enghreifftiau ymarferol yr holl ffordd drwodd sy'n dangos y modd y mae'r mesur yn brathu. Wrth gwrs, deallaf fod yna bobl sydd o'r farn, o fframio pethau'n wahanol, y gallem fod wedi gwneud mwy, ond byddwn yn bendant yn dweud, o'r dyddiau cynharaf hyd at y diwedd, y ddyletswydd sylw dyledus oedd gwneud gwahaniaeth"*[8].

11. Clywodd yr Ymchwiliad dystiolaeth gan Gyfarwyddwr Sefydlu Playing Out, a oedd yn ystyried bod fframwaith cyfreithiol Cymru wedi gwneud gwahaniaeth o ran y modd yr ymdriniodd â hawl plentyn i chwarae (Erthygl 31 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn):

*"mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi corffori'r CCUHP, gan gynnwys hawl plant i chwarae, yn ei chyfraith ddomestig, rwy'n meddwl, yn arwyddocaol iawn, ac mae'r ffaith nad yw Llywodraeth y DU wedi gwneud hynny hefyd yn arwyddocaol iawn o ran ei ffordd o ymdrin â phlant yn ystod y pandemig. Ac ie, rwy'n meddwl, fel y dywedais, mae'n ymddangos nad oedd gan Lywodraeth Cymru lawer o allu i wneud pethau'n wahanol iawn i Lywodraeth y DU, ond gwnaeth hynny mewn ffyrdd bach. Roedd yn bendant wedi rhoi'r neges, gan gynnwys i gynghorau, y dylid blaenoriaeth cyfleodd chwarae i blant"*[9].

12. Mae Llywodraeth Cymru'n cyflwyno enghreifftiau isod o'r modd y gwnaeth y dirwedd gyfreithiol yng Nghymru, lle mae hawliau plant wedi'u hymwreiddio mewn prosesau gwneud penderfyniadau, wahaniaeth yn ystod y pandemig. Nid yw'r enghreifftiau isod yn rhestr gynhwysfawr, ond maent yn rhai o'r llu o enghreifftiau o'r modd yr oedd y fframwaith deddfwriaethol (ac y mae o hyd) yn rhan annatod o'r broses gwneud penderfyniadau yng Nghymru. Fel y nodwyd yng nghyflwyniadau agoriadol ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu 10 datganiad tyst ar gyfer y modiwl hwn, sy'n cynnwys dros 700 o dudalennau o dystiolaeth fanwl, a datgelwyd mwy na 1,700 o arddangosion yn y modiwl hwn. Mae hyn yn ategu tystiolaeth sylweddol gan dystion a datgeliadau ar faterion sy'n berthnasol i'r modiwl hwn yn ystod modiwlau cynharach, yn arbennig Modiwlau 2B a 3. Mae'r dystiolaeth honno'n rhoi rhagor o fanylion ac enghreifftiau mwy cynhwysfawr o'r ymyriadau a'r camau gweithredu a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru mewn manylder sy'n mynd y tu hwnt i gwmpas y

[8] Drakeford 22 Hydref 2025 193/22 - 194/18
[9] Ferguson 30 Medi 2025 104/12-23

ddogfen hon. Nod y ddogfen hon yn lle hynny yw tynnu sylw at rai enghreifftiau allweddol:

a. Roedd perthynas waith sefydledig ac agos â Chomisiynydd Plant Cymru, yr Athro Sally Holland, a ddisgrifiwyd gan Mark Drakeford fel "*grym aruthrol er daioni yn ystod y pandemig*"[10]. Mae wedi cael ei dderbyn nad oedd yn bosibl ymgynghori â Chomisiynydd Plant Cymru cyn cyhoeddi y dylai ysgolion gau i'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar 18 Mawrth 2020, ond mae'n debyg bod y dogfennau o'r cyfnod a'r dystiolaeth gan dystion yn dangos, o adeg y cyfyngiadau symud cyntaf, bu deialog gyson rhwng Comisiynydd Plant Cymru a Llywodraeth Cymru. Gwnaeth hyn wella'r broses gwneud penderfyniadau yn aruthrol a chaniatáu i leisiau plant a phobl ifanc gael eu cynrychioli'n glir;

b. Cynnal arolwg y *Coronafeirws a Fi* ym mis Mai 2020 a mis Ionawr 2021 ar y cyd â Chomisiynydd Plant Cymru a defnyddio canlyniadau'r arolygon i lywio prosesau gwneud penderfyniadau (fel y gellir gweld mewn Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant[11] a chyngor Gweinidogol);

c. Y Prif Weinidog yn siarad â phlant yn fisol drwy gydol y pandemig;

d. Ar 20 Mawrth 2020, rhoddwyd cymorth ariannol i deuluoedd plant sy'n cael prydau ysgol am ddim. Ym mis Ebrill 2020, Cymru oedd y gyntaf o blith pedair cenedl y DU i ymrwymo i roi prydau ysgol am ddim drwy gydol gwyliau'r haf. Parhaodd hyn yn ystod gwyliau ysgol tan fis Mai 2023;

e. Caniatáu amser mwy hyblyg yn yr awyr agored i blant anabl/blant ag amhariad o 24 Ebrill 2020 (yr adolygiad tair-wythnos cyntaf o'r cyfyngiadau); anelwyd hyn yn benodol at helpu teuluoedd â phlant ag awtistiaeth ac anableddau dysgu;

f. Peidio â datgymhwyso neu wanhau'r diogelwch cyfreithiol i blant a phobl ifanc sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig;

g. Ceisio ymestyn tymor yr haf yn 2020 (ac ychwanegu wythnos at hanner tymor mis hydref) fel y gallai plant a phobl ifanc ddychwelyd i'r ysgol yn haf 2020;

h. Y penderfyniad ym mis Gorffennaf 2020 y dylai plant dan 12 oed gael eu heithrio o'r rheolau ynghylch cadw pellter cymdeithasol;

---

[10] Drakeford 22 Hydref 2025 155/24
[11] INQ000048882

i. Gweithredu rhaglen *Haf o Hwyl* – rhaglen i blant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed gael chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, chwaraeon a diwylliannol. Roedd *Gaeaf Llawn Lles* yn 2021 yn adeiladu ar *Haf o Hwyl*, a rhoddodd gyfleoedd i blant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed yng Nghymru ymgymryd â gweithgareddau am ddim, gan gynnwys cyfleoedd i chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol, yn ogystal â gofal plant ac addysg ffurfiol;

j. Rhoi cymorth mentora ac adolygu pwrpasol i'r rhai ym mlynyddoedd 11, 12 a 13, gan ganolbwyntio'n benodol ar gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a disgyblion agored i niwed, a datblygu deunyddiau dysgu ar-lein newydd yn Gymraeg a Saesneg i fyfyrwyr TGAU i gefnogi dysgu cyfunol ac addysg y rhai a oedd yn gorfod hunanynysu; ac

k. Ar 7 Medi 2020, comisiynwyd NSPCC a Childline gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu a chyhoeddi gwybodaeth i blant a phobl ifanc ynghylch codi eu llais ynghylch camdriniaeth a'r modd o gael cymorth. Cyhoeddwyd dau wahanol fath o gymorth, un i blant dros 12 oed ac un i blant o dan 12 oed.

13. Mae'n debyg bod yna sawl enghraifft o'r fframwaith hawliau plant unigryw yn llywio dull gweithredu Llywodraeth Cymru a'r penderfyniadau a wnaeth yn ystod y pandemig. Ymhellach, dywedir na fyddai corffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn y gyfraith wedi newid y broses gwneud penderfyniadau yn faterol yn ystod y pandemig nac wedi arwain at ganlyniadau gwahanol i blant a phobl ifanc. Ystyrir hyn ymhellach yn yr adran argymhellion, o gofio'r alwad gan nifer o gyfranogwyr craidd i Lywodraeth Cymru gorffori'r Confensiwn yn llawn mewn cyfraith ddomestig yng Nghymru.

**Y paratoadau i gau ysgolion a'r weithred o gau ysgolion i'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar 18 Mawrth 2020: consesiynau a chyd-destun.**

14. Yn natganiad agoriadol Llywodraeth Cymru, derbyniodd fod y paratoadau wedi bod yn annigonol. Darparodd ychydig o gyd-destun hefyd:

"*Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod na wnaed digon o waith cynllunio i gau ysgolion ar gyfer y rhan fwyaf o blant ym mis Mawrth 2020. Un o'r prif resymau pam na chafodd cynlluniau manwl eu paratoi ar gyfer cau ysgolion ymhell cyn mis Mawrth 2020 oedd ei bod hi'n amhosibl dirnad y gallai cyfnod o gyfyngiadau symud ar draws y gymdeithas gyfan ddigwydd. Heb gyfnod o gyfyngiadau symud ar draws y gymdeithas*

*gyfan, ystyriwyd mai effeithiolrwydd cyfyngedig fyddai gan gynlluniau i gau ysgolion gan y byddai plant yn debygol o gymysgu y tu allan i'r ysgol ac na fyddai rhieni yn gallu gweithio pe bai ysgolion ar gau. Mae Llywodraeth Cymru wedi dysgu'r wers hon. Mae angen cynllunio ar gyfer senarios na ellir eu dychmygu, gan gynnwys ystyried beth fyddai'r ymateb i feirws â chyfradd heintio a chyfradd marwolaethau uchel ymhlith plant a phobl ifanc*".

15. Rhoddwyd cyd-destun pellach yn nhystiolaeth Mark Drakeford, sef:

    a. Y consenswS gwyddonol tan 16 Mawrth 2020 o leiaf oedd bod anfanteision cau ysgolion yn fwy na'r manteision tebygol, ac felly ffocws y gwaith cynllunio oedd cefnogi ysgolion i aros ar agor[12][13][14].

    b. O ystyried yr adnoddau cyfyngedig (ariannol a phersonél) roedd yn synhwyrol blaenoriaethu cynllunio ar gyfer y tebygolrwydd (y byddai ysgolion yn aros yn agored tan y Pasg o leiaf) yn hytrach na'r posibilrwydd y byddai ysgolion yn cau ar unwaith eto. O gael adnoddau anghyfyngedig byddai wedi bod yn bosibl cynllunio ar gyfer y ddau beth[15].

    c. "*Y stori wirioneddol hynod […] yw pa mor gyflym y llwyddodd y system i ymateb i'r sefyllfa honno a oedd yn newid mor gyflym. Ac ar y 18fed rydym yn penderfynu cau ysgolion, ac erbyn yr 20fed mae yna ddogfennau ar gael sy'n ymdrin â'r rhan fwyaf o'r agweddau hyn, nid dogfennau cyfan, dogfennau a fydd yn cael eu datblygu ymhellach yn ddiweddarach. Ond rwy'n meddwl mai'r peth gwirioneddol hynod, os ydych yn sefyll yn ôl, yw pa mor gyflym roedd modd rhoi'r system ar waith ar ran y plant yr effeithiwyd arnynt*[16]". Cafodd y pwynt hwn ei gydnabod gan Gwnsler yr Ymchwiliad wrth gyfeirio at gyngor Gweinidogol ar 19 Mawrth 2020[17].

16. Ni dderbyniwyd gan Mark Drakeford mewn tystiolaeth bod ehangder y paratoadau ar ddechrau mis Mawrth yn canolbwyntio ar *"y risg o absenoldeb staff, goblygiadau i rieni, a'r pŵer cyfreithiol o ran arholiadau"*[18]. Tystiolaeth Mark Drakeford oedd nad oedd yn cynnwys yr holl bethau a oedd yn digwydd a bod trafodaethau eraill yn digwydd ar yr adeg hon a oedd yn cwmpasu darpariaeth prydau ysgol am ddim a phlant ag anghenion

[12] Drakeford 22 Hydref 2025 107/21-24
[13] Drakeford 22 Hydref 2025 108/23 - 109/7
[14] Drakeford 22 Hydref 2025 115/6-24
[15] Drakeford 22 Hydref 2025 125/11-22
[16] Drakeford 22 Hydref 2025 124/18 - 125/2
[17] Drakeford 22 Hydref 2025 140/1-6
[18] Drakeford 22 Hydref 2025 112/6-8

penodol, er enghraifft plant anabl[19]. Yn yr un modd, ni dderbyniwyd yr awgrym bod y dogfennau o'r cyfnod yn nodi na roddwyd unrhyw feddwl i anghenion plant agored i niwed, a datganodd Mark Drakeford *"dyma'r nodiadau llaw-fer, a luniwyd ar frys yn hwyr yn y nos, yn canolbwyntio ar rai o'r pethau y byddem wedi bod yn poeni amdanynt. Ni ddylai'r ffaith nad yw'n cyfeirio'n uniongyrchol at blant agored i niwed gael ei gymryd fel nad oedd plant agored i niwed yn rhan o'r hyn y byddem wedi bod yn meddwl amdano […] mewn dogfennau eraill byddwch yn dod o hyd i gyfeiriadau at y modd y byddwn yn llywio llwybr i blant agored i niwed, gan gynnwys defnyddio hybiau[20]"*.

17. Nododd Mark Drakeford y byddai wedi bod yn arferol ymgynghori â Chomisiynydd Plant Cymru ond nad oedd hynny'n bosibl yn yr achos hwn oherwydd cyflymdra digwyddiadau[21]. Byddai cynnal Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi bod yn arfer arferol i Lywodraeth Cymru, ond nid oedd y rhain yn amgylchiadau arferol. Derbyniodd y byddai "manteision uniongyrchol" i gael Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a byddai wedi dymuno cynnal un ond ar yr adeg hon yr angen pwysicaf oedd amddiffyn bywyd a gweithredu mewn ffordd a oedd yn lleihau'r achosion o drosglwyddo'r feirws[22].

18. Mae'n debyg ei bod yn anodd tynnu argymhellion o'r cyfnod Chwefror i 18 Mawrth 2020 mewn amgylchiadau lle prin iawn oedd y wybodaeth a oedd gennym am y feirws newydd ac roedd cyflymdra digwyddiadau yn ddidrugaredd. Fel y nodir yn natganiad agoriadol Llywodraeth Cymru, un wers y mae wedi dysgu yw bod yn rhaid i'r gwaith o gynllunio ar gyfer pandemig gynnwys cynllunio ar gyfer senarios na ellir eu dychmygu, gan gynnwys pandemig sydd â chyfradd marwolaethau uchel ymhlith plant.

**Camau lliniaru: cadw ysgolion ar agor i blant a phobl ifanc gweithwyr allweddol a phlant a phobl ifanc agored i niwed a dysgu o bell/ar-lein**

*Plant a phobl ifanc agored i niwed*

19. Roedd cwestiynau'r Ymchwiliad yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd y polisi o ran cadw ysgolion yn agored i blant agored i niwed, yn enwedig plant nad oeddent yn ddiogel yn eu cartrefi ac yr oedd yr ysgol yn ffactor amddiffynnol iddynt.

20. Roedd Mark Drakeford yn derbyn mai'r polisi a'r negeseuon gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2020 oedd y dylai cyn lleied â phosibl o blant a phobl ifanc fynd i'r ysgol (gan gynnwys plant agored i niwed). *"Felly mae gennym ddiffiniad cymharol gul ac mae*

[19] Drakeford 22 Hydref 2025 112/10-19
[20] Drakeford 22 Hydref 2025 122/16-21
[21] Drakeford 22 Hydref 2025 1128/15 - 130/16
[22] Drakeford 22 Hydref 2025 131/14 - 132/10

*gennym bwyslais cryf y dylai plant fod gartref, lle gallant fod gartref yn ddiogel. Os oes angen iddynt fod mewn hyb, mae yna hyb ar gael, a dyma'r diffiniadau rydym yn eu defnyddio. Ac ar yr adeg hon maent yn fwy cul nag y byddant yn ddiweddarach yn y pandemig, ond rwy'n meddwl bod hynny'n ddealladwy yng nghyd-destun yr amser"*[23].

21. Derbyniwyd y daeth yn glir yn gyflym iawn bod niferoedd bach o blant agored i niwed yn mynd i'r ysgol, llawer yn llai nag a ragwelwyd. Tystiolaeth Mark Drakeford oedd yr aeth Llywodraeth Cymru ati ar unwaith i geisio deall pam. Wrth edrych yn ôl, dywedodd y byddai ofn wedi bod yn un o'r rhesymau na ddylid ei danbrisio.

22. Cymerwyd camau i geisio sicrhau bod mwy o blant agored i niwed yn mynd i'r ysgol, a chododd y niferoedd yn ystod y pandemig. Mewn llythyr dyddiedig 23 Ebrill 2020 gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol (Cyfarwyddwyr Addysg a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol) gofynnodd Llywodraeth Cymru iddynt gymryd camau i sicrhau bod plant agored i niwed yn mynd i'r ysgol. Rhoddodd Mark Drakeford dystiolaeth bod y llywodraeth hefyd mewn cyswllt dyddiol ag awdurdodau addysg lleol, roedd arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn aelod o'r Grŵp Craidd COVID a oedd yn cynnwys gweinidogion, felly roedd cyfle wythnosol i glywed ganddo'n aml ac roedd Llywodraeth Cymru'n casglu ffigurau ar bresenoldeb mewn ysgolion [dyddiol]. Derbyniwyd yn gymharol gynnar yn y pandemig y gallai'r model seiliedig ar hybiau fod wedi bod yn rhan o'r broblem i rai plant agored i niwed a fyddai'n gorfod cerdded heibio ysgol gyfarwydd i fynd i hyb[24].

23. O ran effeithiolrwydd cyffredinol y polisi, dywedodd Mark Drakeford: "*Wel, fel y dywedais, nid oedd y niferoedd byth fel yr oeddem wedi dymuno iddynt fod. Os mai dyna yw eich ffon fesur ar gyfer effeithiolrwydd, yna'n amlwg nid yw'n bodloni hynny. Ac mae yna rai pethau hanfodol y gwnaethom geisio eu hunioni, wrth i ni fynd ymlaen. Nid yw'r polisi hwn ar ei ben ei hun, fodd bynnag, yn gweithredu ar wahân i bopeth arall sy'n digwydd ym mywydau pobl. Ac efallai nad oedd gennym ymwybyddiaeth digon llawn o'r pwysau arall y byddai pobl yn ei deimlo, a'r posibiliadau eraill y gallent eu datblygu yn eu bywydau eu hunain, a olygodd nad oedd yr hybiau'n cael eu defnyddio cymaint ag y byddem wedi gobeithio"*[25].

24. Cytunodd Mark Drakeford â Kirsty Williams y byddai wedi hoffi pe byddai wedi bod yn bosibl i fwy o blant agored i niwed fynd i'r ysgol yn ystod y pandemig. Roedd yn anghytuno y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi sicrhau presenoldeb o ystyried ffactorau

[23] Drakeford 22 Hydref 2025 142/13 - 20
[24] Drakeford 22 Hydref 2025 152/3 - 154/13
[25] Drakeford 22 Hydref 2025 154/16 - 155/3

cyd-destunol eraill. Cydnabyddir y dylai diogelu plant a phobl ifanc agored i niwed fod yn ffocws wrth gynllunio ar gyfer pandemig, ac y dylid ystyried y gwersi ynghylch anfanteision y model seiliedig ar hybiau i rai plant a phobl ifanc agored i niwed.

*Dysgu o bell/ar-lein*

25. Roedd y seilwaith a'r adnoddau ar gyfer dysgu o bell yn gymharol ddatblygedig yng Nghymru. Roedd platfform addysgol Hwb wedi bod ar waith ers 2012 a chlywodd yr Ymchwiliad dystiolaeth fod Cymru, o ran darparu gliniaduron i ddysgwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol, ychydig ar flaen y gad,[26] fel y manylir yn nhystiolaeth Llywodraeth Cymru sy'n nodi y darparwyd 10,848 o ddyfeisiau MiFi erbyn diwedd mis Mai 2020[27].

26. Mewn tystiolaeth, awgrymwyd i Mark Drakeford fod yna, ym mis Ionawr 2021, sawl ffynhonnell wybodaeth gerbron Gweinidogion Cymru a oedd yn awgrymu bod problemau o ran effeithiolrwydd dysgu o bell a bod y ddarpariaeth dysgu o bell yn *"dameidiog iawn ac yn amrywiol iawn"*[28]. Mewn ymateb, nododd Mark Drakeford fod yr un arolwg wedi dangos, yn hanner yr ysgolion yng Nghymru, fod gan 90% o'r plant fynediad, ac nid oedd o'r farn bod "*tameidiog*" yn gywir, a dywedodd fod gan *"fwyafrif yr ysgolion erbyn hyn fynediad sylweddol iawn at ddyfeisiau. Nid argaeledd dyfeisiau yw'r talcen caled bob tro. Ond yn hytrach sicrhau bod dyfeisiau'n cael eu defnyddio. Felly, yr un o bob 10 ysgol sy'n nodi bod 20% o blant heb ddyfais, pan ofynnwyd iddynt beth oedd y rheswm am hynny, maent yn aml -- maent yn dweud weithiau ei bod yn anodd cael y cyfarpar, ond yr hyn y maent yn ei ddweud yn fwy aml yw mai'r rheswm yw ei bod yn anodd iawn cyrraedd rhai teuluoedd, a phan fyddwch yn eu cyrraedd, nid yw'n fater o roi dyfais iddynt; wyddoch chi, nid oes ganddynt ddata. Ni allant fforddio prynu data. Felly mae yna -- ac nid oes ganddynt yr hyder na'r sgiliau i helpu'r plentyn i ddefnyddio'r ddyfais ar ôl cael y ddyfais"*[29].

27. Roedd Mark Drakeford yn derbyn bod y symudiad i ddysgu o bell wrth i'r pandemig barhau wedi atgyfnerthu anghydraddoldebau presennol. Nodwyd hyn mewn papur gerbron y Cabinet ar 25 Ionawr 2021 a oedd yn disgrifio canfyddiadau peth gwaith ymchwil a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r materion a oedd yn ymwneud â dysgu o bell ar y pryd. [30] Mae hyn yn sicr yn rhan o'r gwersi y mae'n rhaid iddynt fwydo i mewn i'r gwaith cynllunio ar gyfer y pandemig nesaf, ond cyflwynir nad

[26] McCluskey 7 Hydref 2025 138/15-17
[27] INQ000618154
[28] Drakeford 22 Hydref 2025 175/24
[29] Drakeford 22 Hydref 2025 176/10-23
[30] INQ000129921

ydyw mor syml â sicrhau bod gan deuluoedd difreintiedig fynediad at y galedwedd ac at Wi-Fi, mae'n cynnwys materion mwy sylfaenol ynghylch y cymorth sydd ar gael i blant yn y cartref.

28. Gwnaeth Mark Drakeford bwynt ehangach yn y dystiolaeth hefyd: "*Rwy'n meddwl mai un o'r pethau a oedd yn amlwg iawn yn ystod y pandemig yw'r gallu amrywiol sydd gan ysgolion i wneud dysgu ar-lein yn llwyddiant. Mae rhai ysgolion yn wych yn hynny o beth. Maent yn ei amgyffred o'r cychwyn cyntaf, maent yn gwneud pob math o bethau llawn dychymyg, ac maent yn sicrhau bod dysgu ar-lein yn darparu i'r eithaf, ac nid yw ysgolion eraill yn yr un sefyllfa. Yr amrywioldeb rhwng ysgolion, rwy'n meddwl, sydd yno mewn llawer iawn, iawn o agweddau, ond roeddwn wir yn teimlo bod hyn wedi dod i'r amlwg mewn perthynas â dysgu ar-lein, yn benodol*"[31]. O ganlyniad, gwnaeth Mark Drakeford argymhelliad y dylai'r gwaith o baratoi ar gyfer pandemig gynnwys gofyniad i sicrhau bod ysgolion yn barod ac wedi'u hyfforddi i ddarparu dysgu ar-lein pe byddai hynny'n dod yn angenrheidiol yn y dyfodol. Ni ellir dweud na ddylid byth rhoi hyn ar waith eto oherwydd ei fod wedi atgyfnerthu anghydraddoldebau, gan y gellid cael pandemig sy'n targedu plant a phobl ifanc. Yn hytrach, rhaid cymryd camau i ddeall beth oedd yr arferion gorau o ran dysgu o bell a sut y gellid cefnogi ysgolion i ddod yn fwy medrus wrth ddarparu dysgu o bell.

**Rhyngweithio â'r undebau: haf 2020 ac Ionawr/Chwefror 2021**

29. Gwnaeth Kirsty Williams, Vaughan Gething a Mark Drakeford ill tri gyfeirio yn eu tystiolaeth tyst at adegau anodd mewn trafodaethau ag undebau'r athrawon yn ystod y pandemig ac adegau lle'r oeddent o'r farn bod gwrthdaro posibl rhwng buddiannau'r athrawon (fel y mynegwyd gan yr undebau) a buddiannau'r plant a phobl ifanc. Nododd datganiad Mark Drakeford: "*Ar adegau allweddol, gallai'r berthynas ag undebau'r athrawon fod yn anodd ac nid oedd y pwys haeddiannol bob amser yn cael ei roi ar fuddiannau'r plant, yn hytrach na buddiannau'r oedolion*"[32]. Mewn tystiolaeth lafar ac mewn ymateb i gwestiwn gan gwnsleriaid ar gyfer Cyngres yr Undebau Llafur, ymatebodd Mark Drakeford: "*Cafwyd rhai adegau penodol iawn lle roedd ein barn yn wahanol i farn rhai o'n cyd-weithwyr yn yr undebau llafur, ond ni ddylai neb feddwl bod hynny'n rhyw fath o adlewyrchiad cyffredinol sy'n awgrymu nad oedd yr unigolion hynny a'r aelodau yr oeddent yn eu cynrychioli yn unrhyw beth ond ymroddedig i fuddiannau'r plant yr oeddent yn eu gwasanaethu*"[33].

[31] Drakeford 22 Hydref 2025 181/2-13
[32] INQ000588203
[33] Drakeford 22 Hydref 2025 202/20 - 203/1

30. Yr adegau penodol lle roedd ein barn yn wahanol oedd (i) ailagor ysgolion yn nhymor yr haf 2020 (ii) canllawiau ynghylch ffrydio gwersi'n fyw ym mis Ionawr 2021 a (iii) ailagor ysgolion ym mis Chwefror 2021.

31. Roedd y dystiolaeth wyddonol yn cefnogi cau ysgolion yn gynnar ar 22 Mehefin 2020 ac yna ailagor ysgolion yn gynnar ar 1 Awst 2020[34]. Cyflwynwyd y cynnig hwn i undebau'r athrawon a wnaeth i gyd ei wrthod. Wedyn trafodwyd cynllun wrth gefn i gadw ysgolion ar agor am wythnos ychwanegol yn nhymor yr haf ac i ychwanegu wythnos arall o wyliau at hanner tymor mis Hydref, ar y sail y byddai plant yn cael wythnos ychwanegol yn yr ysgol yn yr haf pan oedd cylchrediad y feirws yn isel. Cafodd y cynnig mwy cymedrol hwn ei wrthod hefyd gan undebau'r athrawon.

32. Wrth roi tystiolaeth, nododd Mark Drakeford fod ganddo rywfaint o gydymdeimlad â safbwynt Kevin Courtney (a oedd yn rhoi tystiolaeth ar ran Cyngres yr Undebau Llafur) nad oedd modd cyflawni'r cynllun mwy radical, ond o ran y cynllun wrth gefn i ychwanegu wythnos ar ddiwedd tymor yr haf dywedodd: "*Yn y fan honno, yn fy marn i, mae gwrthwynebiad fy nghyd-weithwyr yn yr undebau llafur yn anoddach ei ddeall. Maent yn dweud, byddwch wedi gweld yn y nodiadau, fod yr awgrym hwn ynghylch newid un wythnos wedi codi braw ar eu haelodau. Wel, roedd llawer o bethau'n mynd ymlaen ar yr adeg hon a oedd, yn fy marn i, wedi codi ychydig o fraw, ond gofyn i chi symud un wythnos ym mis Gorffennaf a'i rhoi yn ôl ym mis Hydref, nid oeddwn ym meddwl bod hyn o reidrwydd yn ymateb cymesur i'r awgrym hwnnw. Ac wrth gwrs, roedd tri awdurdod lleol yng Nghymru wedi llwyddo i wneud hynny. Felly mae'n amlwg nad oedd yn amhosibl i'w wneud. Ac felly nid yw hyn yn achos syml o amharodrwydd undebau llafur i wneud rhywbeth, ond mae hefyd yn rhywbeth ynghylch rhai awdurdodau lleol yn dewis pa frwydrau i'w hymladd ac i feddwl, wyddoch chi, nad dyma'r un y maent yn mynd i fuddsoddi llawer o amser ac egni ynddi. Yn anffodus, rwy'n meddwl bod y tri awdurdod lleol yn hollol gywir erbyn gweld, oherwydd ym mis Hydref, yn ystod ein cyfnod atal byr, yn y tri awdurdod lleol hynny, roedd yr ysgolion ar gau am y cyfnod cyfan a dyna'n bendant oedd y peth cywir i'w wneud, ac nid oeddem yn gallu gwneud hynny mewn mannau eraill. Felly, o ran ffordd fwy radical o weithredu, rwy'n meddwl bod rhyw rinwedd yn yr hyn a ddywedodd Mr Courtney. O ran y cynnig mwy cymedrol i newid un wythnos, rwy'n meddwl ei bod yn anoddach deall pam yr oedd hynny wedi codi braw*"[35].

33. Roedd Mark Drakeford hefyd yn wahanol i'r undebau'r athrawon o ran eu pryder ynghylch y newid i'r canllawiau a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ddarparu

[34] INQ000618154
[35] Drakeford 22 Hydref 2025 162/9 - 163/10

gwersi wedi'u ffrydio'n fyw i fyfyrwyr ym mis Ionawr 2021: *"Erbyn hyn, mae llawer iawn, iawn o ysgolion yn darparu gwersi wedi'u ffrydio'n fyw. Y syniad nad oedd neb wedi meddwl am oblygiadau amddiffyn plant, nad oedd neb wedi meddwl am oblygiadau GDPR, nid oedd hynny, yn fy marn i, yn adlewyrchiad teg o'r ffeithiau ar lawr gwlad oherwydd bod llawer o ysgolion yn gwneud hyn. A'r hyn y mae Llywodraeth Cymru am ei wneud yw sicrhau bod hyn yn rhan o'r stôr o ddulliau a ddefnyddir mewn ysgolion. Rwyf wedi darllen y dystiolaeth gan, rwy'n meddwl, Mr Courtney, a ddarparodd dystiolaeth ar ran undebau llafur, ac roeddwn yn meddwl ei fod wedi gwneud rhai pwyntiau cryf iawn am y ffaith bod gwersi wedi'u recordio yn aml yr un mor -- neu'n fwy gwerthfawr, oherwydd y gall myfyrwyr fynd yn ôl os nad ydynt wedi clywed neu ddeall pwynt, gall rhieni rannu gwers â nhw gyda'r nos. Ond yn ogystal â hynny, roeddem am sicrhau bod gwersi byw ar-lein yn rhan o'r stôr o ddulliau a ddarparwyd gan ysgolion. Nid ar draul pethau eraill, ond fel rhan o'r offer sydd ar gael iddynt. Nid wyf yn meddwl bod safbwynt Llywodraeth Cymru yn afresymol, ac fel y dywedais, roedd llawer iawn, iawn o ysgolion yn gwneud hyn yn barod"*[36].

34. Roedd yn glir o dystiolaeth Mark Drakeford bod perthynas waith agos rhwng yr undebau llafur yng Nghymru a'r llywodraeth. Roeddent yn rhan o'r model partneriaeth gymdeithasol ac ymgynghorwyd â nhw drwy gydol y pandemig. Er gwaethaf hyn, roedd materion amlwg lle roedd gwahaniaeth barn rhwng Llywodraeth Cymru a'r undebau ynghylch beth oedd er budd gorau plant a phobl ifanc. Cyflwynir ar y materion a ddisgrifir uchod, bod safbwynt Llywodraeth Cymru yn cynrychioli'r safbwynt a oedd yn cynrychioli budd gorau plant a phobl ifanc.

**Argymhellion**

35. Awgrymwyd yr argymhellion canlynol gan nifer o Gyfranogwyr Craidd a thystion:

    a. Corffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn llawn; a

    b. Gweinidog Plant.

*Corffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn llawn*

36. Deallir yn gyffredinol bod "ymgorffori" cytuniad rhyngwladol yn golygu y gall y llysoedd cenedlaethol ddibynnu ar y prif ddarpariaethau a'u cymhwyso, a rhaid i'r darpariaethau hynny, fel mater o gyfraith ddomestig, gael eu cymhwyso gan awdurdodau cenedlaethol. Byddai corffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig mewn cyfraith ddomestig lawn yng

[36] Drakeford 22 Hydref 2025 182/16 - 183/13

Nghymru yn y ffordd hon yn gofyn am ddeddfwriaeth ddomestig er mwyn ymwreiddio hawliau'r Confensiwn yng nghyfraith Cymru a galluogi plant i ddibynnu ar eu hawliau yn y llysoedd domestig. Fodd bynnag, nid yw corffori confensiynau hawliau dynol megis y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn o fewn y fframwaith cyfansoddiadol cyfredol.

37. O dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (fel y'i diwygiwyd), mae Cymru'n gweithredu o dan y model cadw pwerau. Mae hyn yn golygu:

    a. Ni all y Senedd ond deddfu ynghylch materion nad ydynt wedi'u cadw yn ôl ar gyfer San Steffan; a

    b. Byddai corffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig yn <u>llawn</u> yn berthnasol i lawer o faterion a gedwir yn ôl ac felly, ni all y Senedd basio deddfwriaeth sy'n corffori'r Confensiwn yn uniongyrchol.

38. Yn lle corffori, mae Cymru wedi defnyddio mecanweithiau corffori anuniongyrchol yn ei phwerau datganoledig. Fel y mae'r Ymchwiliad yn gwybod, mae *Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011* yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi "sylw dyladwy" i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig wrth arfer eu swyddogaethau, ac mae deddfwriaethau megis *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* a *Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018* hefyd yn ymwreiddio egwyddorion y Confensiwn.

39. Fodd bynnag, nid yw'r deddfwriaethau'n creu hawliau gorfodadwy yn yr un modd ag y byddai corffori llawn. Byddai corffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn creu "dyletswydd i gydymffurfio", dyletswydd i sicrhau canlyniad sy'n gyson â hawliau'r unigolyn, yn wahanol i rwymedigaeth i roi sylw dyladwy sydd, yn y bôn, yn ddyletswydd i ddarparu proses sy'n ystyried hawliau'r unigolyn.

40. Cyflwynodd yr Alban *Ddeddf CCUHP (Corffori) (yr Alban) 2024* sy'n creu dyletswydd i gydymffurfio. Fodd bynnag, roedd fersiwn wreiddiol 2021 *Bill CCUHP (Corffori) (yr Alban)* yn ddarostyngedig i'r un dyfarniad gan Oruchaf Lys y DU y gwnaeth gamu y tu hwnt iddo drwy, o bosibl, effeithio ar Ddeddfau'r DU, gan gynnwys mewn meysydd a gedwir yn ôl, megis mewnfudo[37]. Mae Deddf ddiwygiedig 2024 nawr yn berthnasol i ddeddfwriaethau a swyddogaethau datganoledig yn unig, ac yn osgoi materion a gedwir yn ôl, megis mewnfudo. Mae hyn wedi arwain at beidio â chorffori'n llawn lawer o hawliau a

[37] Cyfeiriad gan Dwrnai Cyffredinol ac Adfocad Cyffredinol yr Alban – Bil CCUHP (Corffori) (Yr Alban) [2021] UKSC 42

rhwymedigaethau yn erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a phrotocolau dewisol cyntaf ac ail brotocolau dewisol, lle y byddai eu cynnwys yn mynd â'r Bil y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol Senedd yr Alban.

41. Er bod gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol dros sawl maes sy'n effeithio ar blant (e.e. addysg, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol), byddai unrhyw broses o gorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru, yn yr un modd â'r Alban, wedi'i chyfyngu i swyddogaethau a deddfwriaethau datganoledig. Yng Nghymru, yn wahanol i'r Alban, byddai cyfyngiadau pellach yn berthnasol gan fod cyfiawnder a phlismona wedi'u cadw ar gyfer Llywodraeth y DU. Byddai proses gorffori mor gyfyngedig felly'n annhebygol o gael effaith sylweddol ar hawliau plant, a byddai'n destun cyfyngiadau ac ymholiadau o ran dehongliad pan ddeuai'n bryd gorfodi.

42. Byddai proses gorffori lawn, fel yr argymhellwyd yn ystod Ymchwiliad COVID-19, yn gofyn am ddiwygio cyfansoddiadol (i alluogi Llywodraeth Cymru i ddeddfu y tu allan i feysydd datganoledig) neu ddeddfwriaeth ar gyfer y DU gyfan.

43. Mae gan Senedd y DU gymhwysedd deddfwriaethol llawn dros gytuniadau rhyngwladol, gan gynnwys confensiynau hawliau dynol. Gwnaeth gorffori'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol drwy Ddeddf Hawliau Dynol 1998, gan wneud yr hawliau'n orfodadwy yn llysoedd y DU. Gallai wneud yr un peth ar gyfer Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, gan greu Deddf Corffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn sy'n gwneud yr hawliau'n orfodadwy'n uniongyrchol, yn galluogi'r llysoedd i ddirymu neu ailddehongli deddfwriaethau sy'n anghydnaws â hawliau plant, ac yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau cyhoeddus i gynnal yr hawliau hynny.

44. Mae'n debyg, er mwyn bod yn effeithiol a meddu ar y grym a argymhellwyd gan y cyfranogwyr craidd, y byddai angen corffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn llawn (pob erthygl a phob un o diriogaethau'r DU). Nid yw hynny'n rhywbeth sydd o fewn awdurdod Llywodraeth Cymru.

*Gweinidog Plant*

45. Mae gan Gymru Weinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ar hyn o bryd. Fel sy'n glir o'r dystiolaeth ysgrifenedig weithredol, roedd gan y Gweinidog Addysg a'r Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol rôl wrth eirioli dros blant yn ystod y pandemig. O ystyried maint llai'r weinyddiaeth yng Nghymru a chydberthnasau gwaith agos y Gweinidogion a'u prosesau gwneud penderfyniadau colegol (fel nodwyd yn

nhystiolaeth Mark Drakeford) nid ystyrir y byddai swydd Weinidogol arall yn gwella hawliau plant a phobl ifanc yn faterol yng Nghymru.

46. Gwnaeth Comisiynydd Plant Cymru nifer o argymhellion yn ei datganiad tyst a gyfeiriwyd at Lywodraeth Cymru. Ystyriwyd yr argymhellion hynny'n ofalus, ac mae rhai ohonynt yn mynd y tu hwnt i faterion y mae'r Ymchwiliad wedi casglu tystiolaeth yn eu cylch ac felly ni eir i'r afael â nhw'n fanwl yn y fan hon. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i drafod yn uniongyrchol â Chomisiynydd Plant Cymru ynghylch yr argymhellion ehangach a wnaed.

47. Yn ei datganiad llafar i gloi, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Ymchwiliad ystyried yr argymhelliad a wnaed gan Heather Payne, yr Uwch-swyddog Meddygol, a gadeiriodd is-grŵp plant a phobl ifanc y Grŵp Cynghori Technegol yn ystod y pandemig. Argymhellodd y dylid sefydlu grŵp cynghori ar blant amlasiantaeth trosfwaol i gynghori ynghylch yr effeithiau posibl ar blant a phobl ifanc (gan gynnwys yr effaith ar ofal mamolaeth) yn sgil unrhyw gyfyngiadau/fesurau mewn ymateb i argyfwng iechyd. Byddai'r grŵp yn cynnwys sefydliadau'r trydydd sector i sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed. Gwnaeth Mark Drakeford hefyd argymell y dylid cael 'peirianwaith llywodraethu' i ganolbwyntio ar hawliau plant yn ystod argyfwng sy'n effeithio ar blant, ac mae gan yr argymhellion hyn nodweddion tebyg gan eu bod wedi'u bwriadu i fod yn barod i'w 'galw arnynt' pe bai argyfwng yn digwydd yn y dyfodol sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc. Fel y dywedodd Mark Drakeford, byddai grŵp fel hyn yn ddefnyddiol oherwydd *"Roedd gennym bopeth roeddem yn ei wybod am y Mesur Hawliau Plant, roedd gennym ein holl brofiad o hynny, ond nid oedd gennym y peirianwaith yn barod i'w weithredu ar draws llywodraeth, wyddoch chi, ym meysydd iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, datblygu cymunedol, ac ati, peirianwaith llywodraethu yn barod i'w ddefnyddio i sicrhau bod anghenion plant a phrofiad plant yn mynd i gael y sylw gofynnol*[38]".

48. Mae Llywodraeth Cymru'n edrych ymlaen at gael argymhellion yr Ymchwiliad er mwyn sicrhau bod *"anghenion plant a phrofiad plant"* yn cael y sylw gofynnol pe byddai pandemig yn digwydd yn y dyfodol.

**28 Tachwedd 2025**

[38] Drakeford 22 Hydref 2025 197/7-18